# Arolygiad Gwerthuso Perfformiad o Gyngor Sir Bro Morgannwg

Ionawr 2023

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron 2023 WG47365 Digital ISBN 978-1-80535-743-8

## Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad gwerthuso perfformiad o wasanaethau plant a phobl ifanc a gwasanaethau oedolion yng Nghyngor Sir Bro Morgannwg ('Bro Morgannwg'/'yr awdurdod lleol') ym mis Ionawr 2023. Diben yr arolygiad hwn oedd adolygu perfformiad yr awdurdod lleol wrth gyflawni dyletswyddau a swyddogaethau gwasanaeth cymdeithasol yn unol â'r ddeddfwriaeth, ar ran Gweinidogion Cymru.

Gwnaethom geisio ateb y cwestiynau canlynol yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014).

1. **Pobl – llais a rheolaeth**
   I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros ei fywyd ac sy'n gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddo?

   I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod ganddo weithlu digonol o ran niferoedd, yn meddu ar y sgiliau priodol, yn brofiadol ac yn cael eu cefnogi?

2. **Atal**
   I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff yr angen am ofal a chymorth ei leihau i'r eithaf ac y caiff anghenion eu hatal rhag dwysáu, gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl i bobl?

3. **Llesiant**
   I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff pobl eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod, ac unrhyw fath arall o niwed.

4. **Partneriaethau**
   I ba raddau y gall yr awdurdod lleol fodloni ei hun bod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, o ansawdd uchel a chwbl integredig i bobl?

Canolbwyntiodd yr arolygiad hwn ar effeithiolrwydd gwasanaethau a threfniadau'r awdurdod lleol i helpu pobl a'u hamddiffyn. Roedd cwmpas yr arolygiad yn cynnwys:

- Gwerthuso profiad oedolion a phlant ar adeg yr arolygiad gwerthuso perfformiad.
- Gwerthuso profiad pobl a'r canlyniadau y maent yn eu cyflawni drwy eu cysylltiad â gwasanaethau.

- Tystiolaeth o'r gwersi a ddysgwyd gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid o brofiadau diweddar a chynlluniau i ddatblygu a gwella gwasanaethau.
- Ystyried sut mae'r awdurdod lleol yn rheoli cyfleoedd a risgiau wrth gynllunio a darparu gofal cymdeithasol ar lefelau unigol, gweithredol a strategol.

## 1. Crynodeb

1.1. Yn yr un modd â llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru, mae Bro Morgannwg yn wynebu cyfnod heriol mewn perthynas â darparu gofal cymdeithasol. Mae llawer o'r pwysau a wynebir gan yr awdurdod lleol yn adlewyrchu'r cyd-destun adfer yn dilyn y pandemig, sydd wedi arwain at lefelau uchel o alw ac anghenion mwy cymhleth, gan gynnwys effaith yr argyfwng 'costau byw'.

1.2. Ceir uwch-arweinyddiaeth gref o fewn gwasanaethau cymdeithasol. Dywedodd staff, rhanddeiliaid a phartneriaid wrthym fod yr uwch-arweinwyr yn weladwy, yn gefnogol ac yn hawdd mynd atynt. Dengys yr adborth a gasglwyd gennym ddiwylliant sy'n canolbwyntio ar lesiant, meithrin a chynnal cydberthnasau, a sicrhau canlyniadau diogel i bobl. Gwelsom a chlywsom dystiolaeth o gymorth corfforaethol a gwleidyddol cryf i'r gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol, a chydnabyddiaeth o'r heriau a wynebir ganddi. Mae hyn wedi arwain at fwy o gyllid er mwyn cryfhau'r gweithlu a buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol i bobl.

1.3. Mae cynlluniau strategol clir ar waith i fonitro a gwerthuso gwelliannau i wasanaethau plant a phobl ifanc a gwasanaethau oedolion drwy'r *'Bwrdd Ail-lunio Gwasanaethau Cymdeithasol'.* Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yw cadeirydd a Phrif Berchennog Cyfrifol y bwrdd, ac mae ei aelodau'n cynnwys y Tîm Arwain Strategol corfforaethol, Tîm Uwch-arweinwyr y gyfarwyddiaeth, a'r Aelod Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

1.4. Cwblhaodd AGC wiriad sicrwydd o'r gwasanaethau plant a phobl ifanc ym mis Mawrth a mis Tachwedd 2021, ac wrth ystyried canfyddiadau'r gwiriadau sicrwydd hynny, yn ystod yr arolygiad hwn gwelsom dystiolaeth glir o'r gwelliant a'r cynnydd a wnaed gan yr awdurdod lleol. Mae hyn wedi arwain at ganlyniadau gwell i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

1.5. Roedd cynlluniau ar waith i wella ansawdd y trefniadau goruchwylio yn y gwasanaethau plant a phobl ifanc drwy fodel gwaith cymdeithasol sy'n seiliedig ar gryfderau, *'Adeiladu ar Gryfderau'.* Clywsom hefyd fod yr awdurdod lleol yn gweithio i wella cysondeb wrth ddefnyddio system rheoli achosion Technoleg Gwybodaeth WCCIS.

1.6. Er bod y weledigaeth strategol yn glir ynghylch *Adeiladu ar Gryfderau* ac wedi'i hategu gan gynlluniau gweithredu cadarn, mae angen gwneud rhagor o waith cyn ei rhoi ar waith yn llawn. Bydd hyn yn golygu y caiff newidiadau, nid yn unig eu hymgorffori, ond y caiff eu gwerth a'u cynnydd eu monitro a'u gwerthuso. Cydnabyddir fod y cyfnod adfer yn dilyn COVID-19, heriau recriwtio, natur fregus y gweithlu a mwy o alw wedi ei gwneud hi'n anodd ymgorffori newid. Mae'r awdurdod lleol hanner ffordd drwy ei gynllun datblygu a gweithredu pum mlynedd, ac mae'r cynnydd a wnaed hyd yma yn galonogol ac yn dangos y gwelliannau a wnaed ers y ddau wiriad sicrwydd a gynhaliwyd gan AGC yn 2021.

1.7. Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n cael cymorth a gwasanaethau gan Fro Morgannwg yn gwneud hynny mewn modd amserol, ac maent yn cael eu cefnogi i gynnal eu diogelwch a'u llesiant ac i leisio eu barn.

1.8. Gwelsom dystiolaeth o'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg a bod dewisiadau ieithyddol pobl wedi'u cofnodi mewn dogfennau allweddol fel asesiadau, cynlluniau gofal a chymorth ac adolygiadau o'r cynlluniau hynny. Er na welsom unrhyw gofnodion yn y Gymraeg, gallem weld lle roedd y Gymraeg wedi'i nodi fel y dewis iaith. Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sicrwydd i ni y gall Bro Morgannwg gynnig y Gymraeg os mai dyna yw dewis iaith yr unigolyn.

1.9. Mae gwaith y *'Bwrdd Ail-lunio'* yn mynd i'r afael â'r angen i ddatblygu system sicrhau ansawdd gadarn ymhellach. Gwelsom a chlywsom am fuddsoddiad i gefnogi dull yr awdurdod lleol o sicrhau ansawdd gyda swyddi wedi'u penodi'n arbennig i ganolbwyntio ar y maes datblygu hwn. Mae fframwaith sicrhau ansawdd wrthi'n cael ei ddatblygu, yn ychwanegol at y gwaith monitro y mae'r prif swyddogion yn ymgymryd ag ef ar draws y gyfarwyddiaeth, a fydd yn cynnwys archwiliadau rheolaidd a chraffu ar ddata drwy ddangosfyrddau gwybodaeth reoli gwell i lywio gwelliannau i wasanaethau. Mae hwn yn faes o datblygiad parhaus ar gyfer yr awdurdod lleol.

**Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth**

Cyflwynir canfyddiadau allweddol ac enghreifftiau o dystiolaeth isod yn unol â phedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

2. **Pobl – Llais a Dewis:**

**Cryfderau:**

***Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc***

2.1. Mae plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn cael yr help a'r cymorth sydd eu hangen arnynt a dywedasant wrthym eu bod yn gwybod â phwy i gysylltu os bydd angen rhywbeth arnynt, gan ddefnyddio geiriau fel 'funny', 'supportive' a 'kind' wrth ddisgrifio'r gweithwyr cymdeithasol sy'n eu cefnogi. Dywedwyd wrthym am amrywiaeth o ffyrdd y mae gweithwyr cymdeithasol yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, sy'n gwneud iddynt deimlo bod rhywun yn gwrando arnynt ac yn eu gwerthfawrogi.

2.2. Dywedodd un person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal wrthym ei fod yn gallu meithrin cydberthnasau cadarnhaol a chefnogol â'r gweithwyr proffesiynol o'i amgylch. Mae hyn yn golygu ar gyfnodau o angen neu argyfwng; gall gael yr help sydd ei angen arno er mwyn atal y sefyllfa rhag gwaethygu. Wrth sôn am ei Gynghorydd Pobl Ifanc, dywedodd un person â phrofiad o fod mewn gofal wrthym 'my YPA is amazing and supportive. She cares.'

2.3. Mae tystiolaeth yn y rhan fwyaf o'r cofnodion gofal cymdeithasol fod safbwyntiau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu cofnodi. Gwelsom enghreifftiau o asesiadau ac adroddiadau cynadleddau amddiffyn plant, a oedd yn canolbwyntio ar y plentyn ac wedi'u llunio mewn ffordd y gallai'r plentyn neu berson ifanc ei deall.

2.4. Mae'r awdurdod lleol yn rhoi blaenoriaeth i ryngweithiadau â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, ac mae eu llesiant wrth wraidd y gwasanaeth a ddarperir. Ceir gweithlu ymrwymedig ac ymroddedig, a thystiolaeth o gyflogeion yn y gwasanaethau plant a phobl ifanc yn mynd y filltir ychwanegol er mwyn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddiogelwch plant a theuluoedd a'u bod, lle bynnag y bo'n bosibl, yn aros gyda'i gilydd ac yn cael y cymorth a'r ymyriad sydd eu hangen arnynt.

2.5. Mae'r awdurdod lleol yn ymateb yn greadigol i heriau wrth recriwtio, drwy gyflogi gweithwyr cymdeithasol o dramor a hyrwyddo cynllun 'dychwelyd i ymarfer'. Mae wedi cael cyllid i benodi swyddogion gofal cymdeithasol ychwanegol, er mwyn ategu a chefnogi'r timau gweithredol. Mae hyn wedi cynyddu potensial yr awdurdod lleol i sicrhau llwyddiant y cynllun *'tyfu eich hun'* drwy lwybrau wedi'u secondio i gymhwyster gwaith cymdeithasol.

2.6. Mae Bro Morgannwg yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu a datblygu i weithwyr cymdeithasol, swyddogion gofal cymdeithasol a gofalwyr maeth. Clywsom am y cymorth cymheiriaid a gynigir o fewn timau lleol ac am ddiwylliant lle gellir trafod heriau er mwyn hyrwyddo cyfleoedd dysgu. Gwelsom y *'pecyn cymorth'* o adnoddau gwaith uniongyrchol a

ddarperir i aelodau perthnasol o'r staff, gyda'r nod o hyrwyddo gwaith ymgysylltu â phlant a phobl ifanc; a chlywsom am y ffordd y caiff y pecyn hwn ei ddefnyddio i lywio sesiynau gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc a rhoi mwy o lais iddynt. Dywedwyd wrthym nad yw'n effeithiol ar gyfer pobl ifanc hŷn a chwestiynodd gweithwyr cymdeithasol gynwysoldeb dyluniad y *'pecyn cymorth'* wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc ag anableddau neu anawsterau cyfathrebu penodol. Fodd bynnag, cydnabyddir na fwriedir i'r*'pecyn cymorth'* fod yn adnodd gwaith uniongyrchol rhagnodol ac y dylid ei ddefnyddio fel y bo'n briodol yn dibynnu ar ei addasrwydd ar gyfer yr unigolyn dan sylw.

2.7. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a ymatebodd i arolwg AGIC y byddem yn argymell gweithio i Fro Morgannwg i ffrind a dywedodd mwy na hanner ohonynt fod ganddynt lwyth gwaith y gallant ymdopi ag ef. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwyr a bod ffocws ar lesiant y staff. Dywedodd y staff wrthym hefyd yn yr arolwg am ansefydlogrwydd y gweithlu, y cynnydd mewn galw a chymhlethdod ac effaith y pandemig, ond cafwyd negeseuon cadarnhaol iawn am weithio i Fro Morgannwg ac ansawdd yr ymyriadau â theuluoedd. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr eu bod yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd gan eu rheolwyr, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, a gwelsom dystiolaeth o sesiynau goruchwylio rheolaidd yn cael eu cynnal.

2.8. Gwelsom fod *Adeiladu ar Gryfderau* yn dechrau ymwreiddio mewn ymarfer, er enghraifft ail-ddylunio'r Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol, ac un enghraifft o sesiynau goruchwylio cryfach a gynhaliwyd drwy ddull BoS.

**Meysydd i'w Gwella:**

2.9. Er gwaethaf tystiolaeth o sesiynau goruchwylio anffurfiol a ffurfiol rheolaidd, roedd yr enghreifftiau a welsom yn amrywio o ran cynnwys ac ansawdd. Roedd rhai yn cynnwys ffocws clir ar les y staff, gan gynnwys anghenion hyfforddi, ond prin oedd y dystiolaeth mewn rhai cofnodion o gyfle i fyfyrio ar ymarfer. **Dylid atgyfnerthu arferion goruchwylio a chadw cofnodion er mwyn sicrhau bod staff yn cael amser i fyfyrio ar eu rhyngweithio â phlant a theuluoedd a bod goruchwylwyr yn gallu goruchwylio'r gwaith a wneir yn ddigonol.**

2.10. Gwelsom ddiffyg tystiolaeth yn y cofnodion o fyfyrio gan ymarferwyr, goruchwyliaeth gan reolwyr a phenderfyniadau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. Clywsom a gwelsom nad yw'r holl gofnodion gofal cymdeithasol yn gyfredol ar WCCIS, gan greu heriau i reolwyr llinell wrth baratoi ar gyfer sesiynau goruchwylio a chynnal goruchwyliaeth gadarn o benderfyniadau ynghylch rheoli achosion.

2.11. Dywedodd y staff wrthym fod system WCCIS yn drwsgl ac yn aneffeithlon ac nad yw'n cefnogi ymarfer. Mae arweinwyr datblygu gwasanaethau yn ymwybodol o hyn ac wrthi'n ailddylunio'r ffurflenni yn unol â'r model *'Adeiladu ar Gryfderau'.* Drwy'r *'Bwrdd Ail-lunio'*, mae grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu gyda'r nod o fynd i'r afael â hyn a gwneud y defnydd gorau posibl o WCCIS. **Rhaid i'r awdurdod lleol barhau i weithio tuag at sicrhau defnydd cyson o WCCIS, gan arwain at gofnodion gofal cymdeithasol plant a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd ac sy'n adlewyrchu'r penderfyniadau allweddol a wnaed.** Mae hyn yn un o'r themâu sy'n dod i'r amlwg o'r gwersi a ddysgwyd drwy adolygiadau ymarfer plant diweddar.

2.12. Dywedodd Swyddogion Adolygu Annibynnol wrthym y gall fod yn anodd 'gwneud synnwyr' o sefyllfa plentyn neu berson ifanc o ddarllen ei gofnod gofal cymdeithasol ar WCCIS. Dywedodd y staff wrthym fod cadw cofnodion gofal cymdeithasol yn cael ei ystyried yn bwysig ond nid yn flaenoriaeth oherwydd pwysau gwaith a materion o ran capasiti, ac roedd yr hyn a welsom yn ategu hyn. Mae cofnodion gwaith cymdeithasol yn gyfle i ddangos sut y caiff penderfyniadau eu gwneud a dylent fod yn fodd i dynnu sylw at brofiadau bywyd y plentyn neu'r person ifanc ac i roi mwy o lais iddo. Rydym yn cydnabod bod y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu drwy'r dull *Adeiladu ar Gryfderau* ac yn cael ei fonitro drwy'r *'Bwrdd Ail-lunio'.* **Dylai'r awdurdod lleol ystyried hwn yn faes â blaenoriaeth a cheisio mynd i'r afael ag ef ar fyrder, gan ganolbwyntio ar roi eglurder i'r staff ynghylch y disgwyliadau i gadw cofnodion mewn modd amserol, cywir ac sy'n adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd ym mywyd y plentyn.**

2.13. Mae cyfleoedd i'r awdurdod lleol weithio ar lefel ranbarthol ac ystyried awdurdodau eraill lle mae system WCCIS wedi'i sefydlu'n dda er mwyn deall arferion da wrth ei defnyddio a manteisio i'r eithaf arni fel adnodd casglu a chofnodi data gwerthfawr a all wella arferion a sicrhau ansawdd.

2.14. Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl a ymatebodd i'r arolwg ei bod yn anodd iawn cysylltu â gwasanaethau cymdeithasol, gan nodi problemau o ran cyfathrebu â gweithwyr cymdeithasol, yn arbennig nad oedd galwadau'n cael eu dychwelyd. **Dylai'r awdurdod lleol ystyried hyn ymhellach er mwyn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i gyfathrebu'n effeithiol ac mewn modd amserol â phobl.**

***Gwasanaethau Oedolion***

**Cryfderau:**

2.15. Ceisir barn pobl am yr hyn sy'n bwysig iddynt ac maent yn parhau wrth wraidd y gwaith a wneir. Roedd yr holl gofnodion gofal cymdeithasol a welwyd yn cynnwys tystiolaeth o lais yr unigolyn. Caiff caniatâd i rannu gwybodaeth ei ystyried yn gyson a dywedodd y rhan fwyaf [92%] o'r bobl a ymatebodd i'n harolwg pobl eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser wrth gysylltu â'r awdurdod lleol.

2.16. Gwelsom rai enghreifftiau o bobl, gan gynnwys gofalwyr, yn cael y cyfle i deilwra a rheoli eu gofal a'u cymorth eu hunain drwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol. Roedd y cynlluniau gofal a chymorth a welsom yn cynnwys tystiolaeth bod taliadau uniongyrchol wedi cynnig, a lle nad hynny oedd yn opsiwn a ffafriwyd gan yr unigolyn, roedd y rheswm dros wrthod taliadau uniongyrchol wedi ei gofnodi. Mae hwn yn faes y mae angen i'r awdurdod lleol barhau i'w atgyfnerthu ar draws gwasanaethau oedolion.

2.17. Dywedodd llawer o weithwyr gwasanaethau oedolion a ymatebodd i arolwg staff AGC eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan eu cydweithwyr a'u rheolwyr. Dywedasant hefyd eu bod yn gallu ymdopi â'u llwythi gwaith. Dywedodd rheolwyr fod ganddynt weithlu ymrwymedig ac ymroddedig. Roedd gweithwyr yn gwerthfawrogi hygyrchedd rheolwyr ac uwch-arweinwyr.

2.18. Dywedodd ymarferwyr a rheolwyr eu bod yn cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rolau, ac roedd ymarferwyr yn gadarnhaol am y gallu i gael gafael ar hyfforddiant/gwybodaeth ar-lein.

**Meysydd i'w Gwella:**

2.19. Er i ni weld bod ymarferwyr yn ystyried yr angen am eiriolaeth, nid oedd hyn yn gyson. Ar hyn o bryd mae'r awdurdod lleol yn cydlynu’r gwaith o gomisiynu gwasanaethau eirioli ar sail ranbarthol. Dywedodd ymarferwyr a phartneriaid wrthym am yr oedi cyn nodi eiriolwr proffesiynol annibynnol ar gyfer rhai pobl. Dywedwyd wrthym fod y trefniadau presennol wrthi'n cael eu hadolygu. Rhaid i'r awdurdod lleol, drwy ei drefniadau comisiynu ar y cyd, sicrhau bod gwasanaethau ar gael a'u bod yn ymateb i anghenion a dewisiadau'r bobl. **Rhaid i'r awdurdod lleol atgyfnerthu'r gwasanaethau eirioli a gynigir a sicrhau bod pob ymarferydd yn deall pwysigrwydd eiriolaeth.**

2.20. Gwelsom dystiolaeth bod rhai gofalwyr yn cael cynnig asesiad o'u hanghenion a bod asesiadau gofalwyr a chynlluniau cymorth yn cael eu cwblhau. Roedd rhai gofalwyr a theuluoedd yn gadarnhaol am y

gydberthynas roeddent wedi'i meithrin ag ymarferwyr unigol a'r cymorth roeddent wedi'i gael. Clywsom hefyd gan rai gofalwyr a oedd wedi cael profiad llai cadarnhaol ac nad oeddent wedi cael cynnig asesiad gofalwr. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i weithio mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn cydymffurfio'n gyson â'r ddyletswydd gyffredinol i hybu llesiant y gofalwr.** Bydd hyn yn sicrhau y caiff eu hanghenion eu hystyried a'u cefnogi'n gyson ochr yn ochr â'r unigolyn sy'n derbyn gofal.

2.21. Roedd un o'r cofnodion gofal cymdeithasol a welsom yn dangos oedi cyn i anghenion cymwys yr unigolyn gael eu diwallu. Roedd hyn wedi golygu na fu gan y gofalwyr unrhyw ddewis ond ariannu pecyn sylweddol o ofal eu hunain wrth i anghydfod fynd rhagddo rhwng yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol ynghylch y cyfrifoldeb am ariannu'r pecyn hwnnw. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau ei fod yn parhau i weithio gyda phartneriaid statudol i ddiwallu anghenion unigolyn cymwys wrth i anghydfod gael ei ddatrys.**

2.22. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr eu bod yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd gan eu rheolwyr. Roedd y cofnodion goruchwylio a welsom yn amrywio o ran cynnwys ac ansawdd. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff ymarfer ei oruchwylio mewn modd cadarn gan y tîm rheoli ac y cynhelir sgyrsiau myfyriol, gan gofnodi digon o wybodaeth i ddangos y penderfyniadau a wnaed.**

2.23. Mae ymateb i gwynion o fewn amserlenni statudol wedi dod yn her gynyddol i'r awdurdod lleol, oherwydd pwysau yn y gwasanaeth a'r ffaith bod cwynion yn mynd yn fwy cymhleth ar draws y gyfarwyddiaeth gyfan. Mae trefniadau ar waith i fonitro cwynion a rhannu gwybodaeth ag uwch-reolwyr, gan gynnwys nodi tueddiadau a gwersi a ddysgwyd. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau yr ymatebir i gwynion yn gyson ac yn unol â'r amserlenni a bennir yn "Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014".**

## 3. Atal

***<u>Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc</u>***

**Cryfderau:**

3.1. Mae FACT (Teuluoedd yn Cyflawni Newidiadau Gyda'i Gilydd) yn cynnig ymyriadau i deuluoedd er mwyn atal teuluoedd rhag chwalu a gwella canlyniadau i bobl. Clywsom fod yr awdurdod lleol wedi cynnal adolygiad

o'r ffordd y gellir cael gafael ar y gwasanaeth hwn yn ddiweddar, a bod hynny wedi arwain at fwy o gapasiti o fewn timau.

3.2. Ochr yn ochr â phroblemau o ran recriwtio a chadw staff, bu cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau a chymhlethdod anghenion. Er mwyn ymateb i hynny, aeth yr awdurdod lleol ati i ailstrwythuro rhan o'i wasanaeth plant a phobl ifanc, sef y Tîm Derbyn a Chymorth i Deuluoedd. Dywedodd rheolwyr y tîm wrthym eu bod yn croesawu'r ailstrwythuro hwn, a'i fod er budd y bobl a'r staff. Dywedodd y rheolwyr gweithredol fod yr ailstrwythuro wedi arwain at ddileu rhestrau aros yn llwyr ac wedi creu 'drws ffrynt' cryfach i wasanaethau plant a phobl ifanc. Mae hyn wedi golygu bod yr awdurdod lleol yn gallu ymateb yn hyblyg i anghenion newidiol teuluoedd.

3.3. Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf, sy'n cynnig un pwynt mynediad i 14 o wasanaethau. Siaradodd partneriaid addysg yn gadarnhaol am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth hwn i gael gafael ar gymorth i ofalwyr ifanc. Mae wrthi'n dadansoddi'r gwasanaethau a gynigir er mwyn deall pa rai sy'n cael eu defnyddio amlaf ac sydd fwyaf buddiol i'r garfan o blant a phobl ifanc dan sylw.

3.4. Darperir y 'Cynnig Rhagweithiol' o eiriolaeth i blant a phobl ifanc, a gwelsom enghreifftiau o'r rôl bwysig y mae eiriolaeth yn ei chwarae i roi mwy o lais i blant a phobl ifanc.

3.5. Mae'r enghreifftiau gorau o ymarfer gwaith cymdeithasol mewn gwasanaethau plant a phobl ifanc yn anelu at gadw teuluoedd gyda'i gilydd ac atal teuluoedd rhag chwalu drwy roi cynlluniau gofal a chymorth ar waith, gan gynnwys darparu gwasanaethau cymorth priodol ac ymyriadau therapiwtig pwrpasol. Mae hyn wedi gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

3.6. Yng nghyd-destun diogelu, caiff diogelwch plant a phobl ifanc ei hyrwyddo drwy ddarparu amrywiaeth o wasanaethau cymorth cynnar a mesurau cymorth tymor hwy sydd â'r nod o leihau'r risg. Er enghraifft, dywedodd un gofalwr teuluol wrthym am becyn cymorth pwrpasol a ddarparwyd yn gyflym, gan alluogi'r person ifanc i barhau i fyw'n ddiogel gyda'i deulu. Darparwyd pecyn cymorth helaeth gan amrywiaeth o wasanaethau, gan gydweithio mewn modd creadigol i wella amgylchiadau'r person ifanc yn llwyddiannus a lleihau'r risg. Dywedodd y gofalwr teuluol wrthym ei fod yn teimlo bod y gweithiwr cymdeithasol a'r rhai a oedd yn gweithio gyda'r person ifanc wedi gwrando arno a'i werthfawrogi. Mae'r enghraifft hon yn cefnogi dull cydweithredol cryf yr awdurdod lleol, a welsom ac y clywsom

amdano dro ar ôl tro, i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel o fewn eu teuluoedd, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol.

3.7. Mae'r gwasanaethau plant a phobl ifanc yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau sy'n cydweithio â'i gilydd i atal y cartref neu'r lleoliad rhag chwalu. Gwelsom fod Swyddogion Atal Troseddau Ieuenctid yn chwarae rôl ataliol gadarnhaol a'u bod yn fedrus wrth feithrin cydberthnasau â phlant a phobl ifanc. Dywedodd gofalwyr maeth wrthym fod uwch-reolwr 'ar alwad' bob amser ar gael i gynnig cymorth a chyngor mewn argyfwng.

3.8. Ceir goruchwyliaeth gadarn gan y swyddog amddiffyn plant a'r swyddog adolygu annibynnol sy'n cadeirio. Gwelsom dystiolaeth o her mewn achosion lle roedd y rhesymeg dros benderfyniadau yn aneglur o'r cofnodion ar WCCIS, gan helpu i atal gwyro ac oedi cyn sicrhau canlyniadau amserol i blant a phobl ifanc. Gwnaethom ddarllen bod swyddogion amddiffyn plant a swyddogion adolygu annibynnol sy'n cadeirio yn ceisio barn plant a phobl ifanc, ac yn eu cofnodi'n glir. Roedd hyn yn welliant amlwg o gymharu â'r gwiriad sicrwydd a gynhaliwyd gan AGC ym mis Mawrth 2021.

**Meysydd i'w Gwella:**

3.9. Mae amrywiaeth o wasanaethau ataliol ar gael ym Mro Morgannwg, ond mae capasiti rhai ohonynt yn gyfyngedig ac mae gan rai eraill restrau aros am fod y galw yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael. **Rhaid i'r awdurdod lleol weithio gyda'i bartneriaid a chomisiynwyr i ddadansoddi a deall y galw am wasanaethau ataliol a gwella'r gallu i gael gafael arnynt mewn modd amserol, er mwyn atal yr angen a'r risg rhag gwaethygu.**

3.10. Mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol o restrau aros am asesiadau gofalwyr, sy'n cael effaith amlwg ar y gallu i ddarparu cymorth ac ymyriadau cynnar i bobl, ac mae'n eu monitro. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r awdurdod lleol wedi cyflogi gweithiwr gofalwyr llawn amser a fydd yn gweithio o fewn Cymorth Cynnar i gynnal asesiadau rhieni/gofalwyr a gofalwyr ifanc. **Rhaid i'r awdurdod lleol fonitro cynnydd hyn a gweithio tuag at leihau rhestrau aros.**

**Gwasanaethau Oedolion**

**Cryfderau:**

3.11. Mae uwch-reolwyr yn deall yn iawn bod y gallu i gael gafael ar ymyriadau cynnar yn allweddol i gynnal llesiant a lliniaru'r galw am wasanaethau gofal

a reolir. Un cryfder yw ymrwymiad strategol a rennir Model Cynghrair y Fro i gysoni asedau ac adnoddau a chynnal ffocws ar hyrwyddo annibyniaeth pobl.

3.12. Mae'r awdurdod lleol wedi gweithio mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd, y trydydd sector a rhanddeiliaid eraill i greu'r Gwasanaeth Materion Lles. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig un pwynt cyswllt i gynnig mynediad ac ymateb cydgysylltiedig i gefnogi anghenion llesiant oedolion sy'n byw yn yr awdurdod lleol.

3.13. Fel sy'n wir am y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru, mae pwysau sylweddol ar gapasiti o fewn y farchnad gofal cartref. Mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol o restrau aros ar draws meysydd gwasanaeth, ac yn eu monitro. Er gwaethaf y galw hwn, gwelsom rai enghreifftiau da o ofal cartref yn cael ei gynnig mewn modd amserol. Cadarnhaodd ymarferwyr, rheolwyr a phartneriaid fod ceisiadau am ofal cartref brys yn cael eu blaenoriaeth ac yr ymatebir iddynt mewn modd amserol.

3.14. Ers ein gwiriad sicrwydd o wasanaethau oedolion ym mis Mawrth 2021, mae'r awdurdod lleol wedi datblygu rôl 'Swyddogion Llesiant', sydd wedi'u hyfforddi'n Aseswyr Dibynadwy yn ddiweddar. Mae hyn wedi galluogi'r awdurdod lleol i ymateb mewn modd amserol i geisiadau am gyfarpar lefel isel a mân addasiadau. Mae hyn wedi lleihau'r rhestr aros am therapi galwedigaethol ac mae'n sicrhau ymateb amserol i hyrwyddo neu gynnal annibyniaeth pobl.

**Meysydd i'w Gwella:**

3.15. Cymysg yw profiadau pobl o gysylltu â gwasanaethau oedolion. Dywedodd rhai pobl, gan gynnwys gofalwyr, wrthym ei bod wedi ei chael hi'n anodd cael gafael ar yr unigolyn priodol neu gael ymateb amserol. **Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu ei drefniadau presennol i sicrhau bod pobl yn cael ymateb amserol a chyson pan fyddant yn cysylltu â Gwasanaethau Oedolion.**

3.16. Ni chaiff rhai adolygiadau statudol eu cynnal mewn modd amserol. Mae'r awdurdod lleol yn colli cyfle i ganfod a yw pobl wedi cyflawni eu canlyniadau llesiant personol neu a oes angen cymorth arnynt o hyd i wneud hynny. **Rhaid i'r awdurdod lleol gymryd y camau gofynnol i sicrhau cydymffurfiaeth ag amserlenni ar gyfer adolygiadau statudol.**

3.17. Deallir pwysigrwydd rhyddhau cleifion yn amserol o'r ysbyty ac erys hynny'n flaenoriaeth, ond mae darparu gofal cartref er mwyn galluogi pobl i ddychwelyd adref yn ddiogel yn un o'r heriau a wynebir gan yr awdurdod lleol. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i weithio mewn modd strategol a gweithredol gyda'i bartneriaid yn y bwrdd iechyd lleol i ystyried ffyrdd o liniaru'r sefyllfa.**

## 4. Llesiant

**Cryfderau:**

**Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc**

4.1. Gwelsom ymatebion diogelu effeithiol ac amserol yn y gwasanaethau plant a phobl ifanc, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc. Mae'r partneriaid yn meddu ar ddealltwriaeth dda o drothwyon ac ymgysylltir â nhw yn ystod y broses ddiogelu er mwyn rhoi eglurder iddynt ynghylch y penderfyniadau a wneir am blant a'u galluogi i gyfrannu atynt. Dywedodd un partner ei fod yn teimlo bod yr awdurdod lleol 'o gwmpas ei bethau' mewn perthynas â chamfanteisio ar blant a diogelu cyd-destunol, [1]ac roedd yr hyn gwnaethom ei ddarllen mewn cofnodion gofal cymdeithasol yn ategu hyn.

4.2. Mae gweithwyr cymdeithasol sy'n gyfrifol am ddiogelu plant a phobl ifanc yn hyderus yn eu gallu i ymateb i bryderon yn ymwneud â diogelu a chymryd camau lle bo angen, a hynny er gwaethaf mwy o alw a phryderon mwy cymhleth. Ymatebir i adroddiadau diogelu mewn modd amserol ar y cyfan, gan gynnwys trafodaethau a chyfarfodydd strategol sy'n cynnwys y gweithwyr proffesiynol perthnasol.

4.3. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff wrthym fod eu rheolwyr a'u huwch-arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth i'w llesiant, a rhoesant nifer o enghreifftiau o'r ffordd y caiff yr ymrwymiad hwn ei ddangos. Gall staff ofyn am gymorth, cyngor ac arweiniad a byddant yn ei gael o fewn y grŵp rheoli ac arwain. Ategir hyn gan ganlyniadau'r arolwg staff, gyda 27 o 32 (84%) o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan eu rheolwyr.

4.4. Mae'r awdurdod lleol yn comisiynu gwasanaeth seicoleg, gan gynnwys sesiynau ymgynghori ac ymarfer myfyriol i reolwyr timau a gweithwyr cymdeithasol, sy'n cynnig cyfle iddynt drafod materion cymhleth a heriol.

---

[1]Mae diogelu cyd-destunol yn ffordd o ddeall ac ymateb i brofiadau pobl ifanc o niwed sylweddol y tu hwnt i'w teuluoedd, gan ystyried y person ifanc yng nghyd-destun ei gydberthnasau â chyfoedion a'i gymuned.

Mae hyn yn hyrwyddo ac yn atgyfnerthu gwydnwch a llesiant o fewn y timau.

**Meysydd i'w Gwella:**

4.5. Gwelsom gyfleoedd a gollwyd i osgoi gwyro a diogelu rhai plant a phobl ifanc yn ddigonol, o ganlyniad i bwysau o ran staffio a salwch ar y pryd. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y darperir yr ymyriadau priodol i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf, drwy brosesau gwneud penderfyniadau wedi'u goruchwylio'n gadarn gan y tîm rheoli, hyd yn oed ar adegau pan fo nifer uchel o absenoldebau staff a swyddi gwag.**

**<u>Oedolion:</u>**

**Cryfderau:**

4.6. Roedd rhan fwyaf o'r asesiadau a welsom yn seiliedig ar gryfderau, ac yn canolbwyntio ar yr hyn a oedd yn bwysig i'r unigolyn a'r canlyniadau yr oedd yn dymuno eu cyflawni. Roeddent wedi'u strwythuro o amgylch y pum elfen asesu ac yn deillio o sgwrs rhwng yr unigolyn a, lle y bo'n briodol, y gofalwr/teulu ehangach a'r ymarferydd. Caiff y cymorth a roddir gan deulu a ffrindiau ei gydnabod a'i werthfawrogi, ac roedd eu cyfraniad wedi'i gofnodi yn y rhan fwyaf o'r cynlluniau gofal a chymorth a welsom.

4.7. Ceir tystiolaeth bod galluedd meddyliol yn cael ei ystyried, ac roedd yr asesiadau o alluedd meddyliol a welsom o ansawdd da ac yn dangos gwybodaeth a gallu'r ymarferydd i ymarfer yn unol ag egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

4.8. Cawn sicrwydd yr ymatebir mewn modd amserol a chymesur i adroddiadau diogelu oedolion. Caiff yr adroddiadau hyn eu sgrinio, ac roedd y rhan fwyaf o'r ymholiadau a welsom wedi'u cynnal yn unol â gofynion statudol. Roedd y dadansoddiad a'r penderfyniad wedi'u cofnodi'n glir gan amlaf. Ar y cyfan, caiff trafodaethau a chyfarfodydd strategol eu cynnal mewn modd amserol, gan gynnwys y gweithwyr proffesiynol perthnasol, ac mae'n amlwg bod yr oedolyn sy'n wynebu risg wrth wraidd y broses hon. Caiff ymholiadau diogelu adran 126 eu cynnal gan ymarferwyr mewn gwahanol dimau. Maent wedi magu hyder o ganlyniad i atgyfnerthu'r tîm diogelu oedolion a'r cyngor/arweiniad y gall ei ddarparu.

**Meysydd i'w Gwella:**

4.9. Dywedodd y gofalwyr y gwnaethom siarad â nhw fod cynllunio wrth gefn a chynllunio at y dyfodol yn bwysig er mwyn rhoi sicrwydd iddyn nhw a'r unigolyn sy'n derbyn gofal bod trefniadau addas ar waith. Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth o gynllunio wrth gefn yn y cofnodion gofal cymdeithasol a welsom. **Dylai'r awdurdod lleol adolygu'r maes ymarfer hwn.**

4.10. Mae'r awdurdod lleol yn ymateb i bryderon diogelu brys. Mae gweithwyr proffesiynol yn y tîm diogelu yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid a chydweithwyr o dimau ehangach yr awdurdod lleol i amddiffyn oedolion sy'n wynebu risg. Mae'r partneriaid yn deall eu dyletswydd i gyflwyno adroddiadau, a gwelsom dystiolaeth o adroddiadau amserol a phriodol y cael eu cyflwyno i'r Tîm Diogelu. Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth bod canlyniadau ymholiadau adran 126 yn cael eu rhannu â'r unigolyn sy'n cyflwyno'r adroddiad. **Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu'r trefniadau presennol i sicrhau y caiff canlyniadau ymholiadau eu rhannu â'r unigolyn sy'n cyflwyno'r adroddiad.**

## 5. Partneriaethau ac Integreiddio

### <u>Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc</u>

**Cryfderau:**

5.1. Dywedodd partneriaid mewnol ac allanol wrthym fod diwylliant o gyfathrebu da a ffocws ar weithio mewn partneriaeth ym mhob rhan o'r awdurdod lleol, o'r Cyfarwyddwr i'r ymarferwyr rheng flaen. Mae hyn yn helpu i sicrhau canlyniadau da i blant a phobl ifanc y mae angen gofal a chymorth arnynt.

5.2. Dywedodd un o'r partneriaid wrthym: *“The culture of the organisation is positive, and people go the extra mile to achieve the best for the people in the VoG”*

5.3. Mae'r panel lleoliadau amlasiantaeth, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o faes iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol, yn cydweithio mewn perthynas â lleoliadau plant a chynllunio gofal cymhleth. Dywedodd partneriaid wrthym fod yr awdurdod lleol yn perfformio'n dda yn y cyd-destun hwn. Gallant herio ei gilydd yn briodol a chydweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc. Cryfder allweddol yw'r ffaith bod partneriaid addysg yn gallu cael mynediad i WCCIS.

5.4. Dywedodd partneriaid wrthym am y modd y caiff gwasanaethau eu datblygu ar y cyd, a bod Bro Morgannwg yn agored ac yn barod i fod yn rhan o fentrau newydd a'u hyrwyddo. Un enghraifft o hyn fyddai gweithio

gyda phartneriaid i fuddsoddi mewn gwasanaethau preswyl mewnol newydd a'u datblygu.

5.5. Siaradodd bron bob un o'r darparwyr annibynnol yn gadarnhaol am y cymorth a roddir gan yr awdurdod lleol mewn perthynas â threfniadau comisiynu, lle mae cydberthnasau wedi cefnogi arloesedd a'r gwaith o ddatblygu lleoliadau. Clywsom gan ddarparwyr a ddywedodd wrthym yr ymgynghorwyd â nhw ynghylch y strategaeth gorfforaethol newydd ar gyfer plant y mae angen gofal a chymorth arnynt ar gyfer 2023-2027, a'u bod wedi cael eu cynnwys yn y gwaith o lywio'r strategaeth honno.

5.6. Dywedodd un o'r darparwyr wrthym: *“We have amazing stories of young people who have turned their lives around, where they might have been written off in other local authorities.”*

**Meysydd i'w Gwella:**

5.7. Mae mwy o alw na'r hyn y gellir ei wasanaethu ac nid yw'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd yn diwallu anghenion plant, pobl ifanc na'u teuluoedd. Dylid parhau i gynnal trafodaethau â darparwyr, comisiynwyr a deiliaid cyllidebau ynglŷn â sut i wella'r sefyllfa, er mwyn cynnal cydberthnasau gwaith da a sicrhau canlyniadau da i blant a phobl ifanc. Clywsom am restrau aros ac oedi cyn darparu gwasanaethau o ganlyniad i'r galw mewn meysydd penodol, fel eiriolaeth, darpariaeth canolfannau cyswllt a chymorth magu plant. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i fonitro galw mewn modd creadigol er mwyn lleihau oedi cyn darparu gwasanaethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.**

**<u>Oedolion:</u>**

**Cryfderau**

5.8. Gwelwyd bod partneriaethau'n gweithio'n dda ar bob lefel ac yn darparu dull cynaliadwy, integredig o ddiwallu anghenion a hybu llesiant yn unol â'r ddeddfwriaeth.

5.9. Mae ymarferwyr yn meithrin cydberthynas broffesiynol â phobl yn seiliedig ar gydweithrediad a dealltwriaeth a rennir o'r hyn sy'n bwysig. Roedd y rhan fwyaf [90%] o'r bobl a ymatebodd i'n harolwg pobl yn teimlo y gwrandawyd arnynt weithiau, y rhan fwyaf o'r amser, neu drwy'r amser.

5.10. Ceir ymrwymiad i gynnwys pobl wrth ddylunio a darparu gwasanaethau. Caiff pobl eu cynnwys mewn gweithgareddau recriwtio staff a datblygu

gwasanaethau. Mae hyn yn eu galluogi i ddylanwadu ar benderfyniadau am ofal a chymorth a dyluniad gwasanaethau.

5.11. Ceir partneriaethau effeithiol sy'n canolbwyntio ar gomisiynu, darparu a datblygu gofal a chymorth integredig o ansawdd uchel er mwyn sicrhau canlyniadau cynaliadwy i bobl. Cyfeiriodd darparwyr at gydberthynas sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a phartneriaeth gyfartal â'r awdurdod lleol. Dywedodd darparwyr yn y trydydd sector wrthym fod gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth dda o'r trydydd sector a'i fod yn adnabod y gymuned yn dda. Dywedodd partner arall fod ganddo gydberthynas adeiladol a chefnogol â gwasanaethau oedolion a bod uwch-arweinwyr yr awdurdod lleol yn “accessible and with a passion for getting it right for the citizens”.

**Meysydd i'w Gwella:**

5.12. Mae'r awdurdod lleol yn datblygu Strategaeth Dai ar gyfer Pobl Hŷn 2022-2036, sy'n adlewyrchu'r weledigaeth hirdymor ar gyfer darpariaeth tai i bobl hŷn. Yn ystod yr arolygiad, clywsom am yr heriau a wynebir wrth geisio dod o hyd i dai addas i gefnogi pobl a phroblemau yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl cymhleth. **Rhaid i'r awdurdod lleol weithio gyda'i holl adrannau a phartneriaid allweddol i ddatblygu darpariaeth tai i bob oedolyn y mae angen cymorth neu ofal a chymorth arno.**

5.13. Rhaid i bartneriaid gydweithio i sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn teimlo bod eu safbwyntiau'n cael eu ceisio a'u clywed yn gyson. Nid oedd pob un o'r gofalwyr y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r porth gofalwyr. **Rhaid i'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff gofalwyr sy'n cefnogi pobl ag anghenion gofal iechyd sylfaenol neu berthnasau/teulu yn yr ysbyty eu cydnabod a'u cefnogi, ac y gwrandewir arnynt.**

**Y Camau Nesaf**

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r arferion cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol, er mwyn lledaenu gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

## Methodoleg

### Gwaith maes

Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau pobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar 30 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain 10 cofnod, wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant a phobl ifanc.

Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r unigolyn sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.

Gwnaethom hefyd: -

- gyfweld â 21 o gyflogeion yr awdurdod lleol
- cyfweld ag amrywiaeth o sefydliadau partner, yn cynrychioli'r sector statudol a'r trydydd sector
- edrych ar 10 ffeil goruchwylio staff
- edrych ar ganmoliaethau a chwynion
- edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd at AGC at ddiben yr arolygiad
- dosbarthu arolygon i staff, sefydliadau partner a phobl
- cynnal grwpiau ffocws gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau'r awdurdod lleol, gan alluogi AGC i ymgysylltu â 35 o unigolion.

### Y Gymraeg

Roedd tri arolygydd sy'n siarad Cymraeg ar gael, gan alluogi AGC i ddarparu cynnig rhagweithiol i gynnal rhannau o'r broses arolygu yn Gymraeg.

### Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.